

Mae Presenoldeb yn yr Ysgol yn Bwysig!

**MISS SCHOOL.
MISS OUT!**
#AttendanceMatters

merthyr.gov.uk/attendance



Eich cyfrifoldeb cyfreithiol chi fel rhiant yw gwneud yn siŵr bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol. Os yw eich plentyn yn methu â mynychu'r ysgol heb reswm derbyniol byddwch mewn risg o dderbyn Hysbysiad Cosb Benodedig neu o gael eich erlyn.

Mae gwella deilliannau addysgiadol ein plant a'n pobl ifanc yn flaenoriaeth allweddol i'r Awdurdod Lleol. Mae'r cysylltiadau rhwng presenoldeb gwael a chyrhaeddiad yn amlwg a nod yr Awdurdod Lleol yw mynd i'r afael â tharddiad diffyg presenoldeb, un o'r rheini yw 'diogelu ac absenoldeb tymor hir'.

'Mae methiant parhaus o ran anfon plant i'r ysgol yn arwydd clir o esgeulustod'.

Bydd trefnu apwyntiadau a gwibdeithiau ar ôl oriau ysgol, dros benwythnosau neu yn ystod gwyliau'r ysgol yn helpu i atal tarfu ar addysg eich plentyn a'r ysgol hefyd. Ni ddylech ddisgwyl i'r ysgol gytuno bod eich plentyn yn mynd ar wyliau yn ystod cyfnod y tymor ac os byddwch yn cymryd eich plentyn allan o'r ysgol, gallai hyn hefyd arwain at Hysbysiad Cosb Benodedig.

Ers 2014 mae gan y Gasanaeth Lles Addysg, yr awdurdod i gyflwyno hysbysiad cosb benodedig i rieni y mae eu plant wedi bod yn absennol am bum diwrnod neu fwy heb awdurdod. Gellir cyflwyno'r hysbysiad am unrhyw absenoldebau na chafodd eu hawdurdodi gan yr ysgol, gan

gynnwys gwyliau. Gall y Gwasanaeth Lles Addysg gyflwyno'r hysbysiadau hyn pan gaiff pryderon eu codi gan yr ysgol neu'r heddlu.

Gwyrdd	100%	Colli dim gwersi.
	99%	Colli tua 10 gwers.
	98%	Colli tua 20 gwers.
	97%	Colli tua 30 gwers.
Ambr	96%	Colli tua 8 diwrnod ysgol. Bydd yn anodd dal fyny'r gyda'r dysgu a gollwyd o tua 40 gwers.
	95%	Colli tua 2 wythnos o ysgol.
	93%	Colli 14 diwrnod ysgol. Mae hyn yn bron i dair wythnos sy'n dipyn sylweddol o addysg i'w cholli.
Coch	92% ac isod	Colli mwy na 3 wythnos. Mae hyn yn golled ddifrifol o ddysgu sy'n debygol o gael effaith andwyol ar fywyd a chyfleoedd.

#ColliYsgolColliAllan!

Rydym am ddefnyddio'r cyfle hwn i atgoffa pawb; disgyblion, rhieni, gofalwyr, athrawon – y gymuned oll – fod presenoldeb yn yr ysgol yn bwysig!

Rydym am wneud yn siŵr fod pobl ifanc Merthyr Tudful yn derbyn y gorau posibl mewn bywyd ac rydym yn teimlo fod addysg dda yn helpu i ddarparu hynny.

Ni waeth pa mor atyniadol bynnag yw hi i gymryd diwrnod bant i brynu'r esgidiau ysgol newydd yna, neu fynd ar wyliau rheolaidd yn ystod y tymor; cofiwch: **Mae dysgu'n rhoi cyfleoedd i'ch plentyn – peidiwch â gadael i'ch plentyn golli allan!**

Cael trafferth mynd â'ch plentyn i'r ysgol?

Os ydych chi'n cael trafferth mynd â'ch plentyn i'r ysgol neu os ydych yn meddwl y gall fod yna reswm pam nad yw eich plentyn am fynd i'r ysgol, dylech siarad ag athro dosbarth eich plentyn, y Pennaeth Blwyddyn neu'r Pennaeth am help a chefnogaeth. Mae cyngor a chymorth ar gael hefyd oddi wrth eich Swyddog Cynhwysiant Addysg neu'r Swyddog Cyswllt â'r Teulu.